Cylchlythyr #3: Gwanwyn 2019

Pencampwyr Rhywogaethau

ACau yn codi llais dros rywogaethau sydd dan fygythiad ac mewn perygl

Pwy yw Pencampwyr Rhywogaethau'r Cynulliad?

Gwiber - Hefin David
Môr-wennol y gogledd - Hannah Blythyn
Onnen - David Melding
Pâl - Paul Davies
Cacynnen y llus - Leanne Wood
Chwilen olew ddu - Rebecca Evans
Dolffin trwyn potel - Joyce Watson
Y brithyll- Kirsty Williams
Brân goesgoch - Rhun ap Iorwerth
Llyffant dafadennog - Jeremy Miles
Gylfinir - Mark Isherwood
Pathew - Llŷr Gruffydd
Llysywen Ewropeaidd - Dawn Bowden
Corryn rafft y ffen - Caroline Jones
Misglen befriog yr afon - Nick Ramsay
Ystlum pedol mwyaf - Angela Burns
Morlo llwyd - Dai Lloyd
Llamhidydd - Janet Finch-Saunders
Draenog - Lee Waters
Britheg frown - Jane Hutt
Llyngyren ddiliau - Siân Gwenllian
Cornchwiglen - Huw Irranca-Davies
Ystlum pedol lleiaf - Suzy Davies
Wystrys brodorol - Julie James
Troellwr mawr - Vikki Howells
Britheg berlog - Russell George
Bele - Eluned Morgan
Gwiwer - Darren Millar
Yr Eog - David Rees
Y siwin - Elin Jones
Hwyaden yr eithin - Jayne Bryant
Glesyn bach - Mike Hedges
Migwyn - Alun Davies
Gwennol ddu - Jenny Rathbone
Llinos y mynydd - Siân Gwenllian
Llygoden bengron y dŵr - John Griffiths
Madarch cap cwyr - Julie Morgan
Cennin Pedr Cymreig - Vaughan Gething
Cleren fai felen - Mohammad Asghar


Miloedd o bobl yn dweud wrth Lywodraeth Cymru bod #AngenNatur!



Aelodau'r rhwydwaith yn cyflwyno'r llythyr i Lesley Griffiths a Hannah Blythyn.

Yn yr hydref, mynegodd pobl eu cefnogaeth lwyr dros fodel nwyddau cyhoeddus arfaethedig Llywodraeth Cymru, oherwydd fe all wrthdroi colledion sylweddol bioamrywiaeth Cymru ac adfer byd natur ar ran cenedlaethau'r dyfodol. Drwy e-weithredu ar-lein, yn ogystal ag ymatebion unigol gan ystod o randdalwyr, cymeradwyodd y cyhoedd y cynigion yn Brexit a'n Tir. Ym mis Hydref, adlewyrchwyd barn Cyswllt Amgylchedd Cymru mewn llythyr agored i Weinidogion. Wrth i'r gwaith barhau ar fwy o fanylion ar gyfer polisi yn dilyn Brexit, pan fydd Cymru'n ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mae cyrff amgylcheddol anllywodraethol yn optimistaidd y gall w eithio ar gyfer pobl a bywyd gwyllt. Mae'n hanfodol ein bod yn datblygu gwytnwch nawr – yn wyneb heriau cynyddol newid hinsawdd a cholledion dychrynllyd byd natur – a galluogi rheolwyr tir i gefnogi natur.

Byrddau celf yn dangos prinhad rhywogaethau o adroddiadau Sefyllfa Byd Natur.



Cyfranwyr: Carly Jones, RSPB; Clare Dinham, Buglife; Liz Smith, WEL.; Richard Garner Williams, Salmon & Trout Conservation Cymru; Sinead Lynch, Bumblebee Conservation. Tynwyr lluniau: Liz Smith, WEL; Andy Hay, RSPB; Salmon & Trout Conservation Cymru; Buglife Cymru.

Adroddiad newydd yn amlygu dyfodol ansicr i wenyn gwyllt



Mae Cymru'n gartref i rywogaethau o wenyn sy'n brin yn genedlaethol ac sydd o dan fygythiad. Ar gyfer rhai, mae Cymru'n cynnal y poblogaethau olaf yn y DU yr ydym yn gwybod amdanyn nhw o rai o'r rhywogaethau yma. Gyda'r môr ar dair ochr iddi, mae arfordir Cymru'n eang ac amrywiol ac yn gynefin eithriadol o bwysig i lawer o rywogaethau o wenyn, yn ogystal ag amrywiaeth o infertebratau eraill. Mae gwenyn gwyllt (a pheillwyr eraill) yn wynebu sawl her yn ein tirlun heddiw, o golli, darnio a diraddio cynefin, i blaladdwyr a llygrwyr, newid hinsawdd, a chlefydau. Mae'r pwysau yma wedi peri prinhad difrifol ym mhoblogaethau gwenyn gwyllt, ac yn codi pryderon am ddiffyg peillio llawer o flodau gwyllt a chnydau bwyd, a sefydlogrwydd bioamrywiaeth ac ecosystemau ehangach.

Ym mis Hydref 2018, lansiwyd Adroddiad Gwenyn Cymru o dan Fygythiad gan Buglife Cymru, yr adroddiad cyntaf o'i fath i archwilio statws a dosbarthiad gwenyn mewn perygl yng Nghymru. Yn ddychrynllyd, mae'r adroddiad wedi darganfod bod saith o'n gwenyn wedi diflannu o dir Cymru, a bod pump arall ar fin diflannu o'r tir. Mae'r adroddiad yn cynrychioli anogaeth i ymuno â Buglife Cymru a gweithredu i warchod y rhywogaethau hyn sydd o dan fygythiad drwy weithio mewn partneriaeth, projectau cadwraeth ymarferol ac eiriolaeth. Drwy gyfrwng ein Mentr B-Linellau, rydym yn cydweithio gyda phartneriaid i wrthdroi'r prinhad yma a rhwystro mwy o rywogaethau rhag diflannu o Gymru drwy gysylltu ac adfer cynefinoedd llawn blodau ledled cefn gwlad. Ceir mwy o wybodaeth am B-Linellau a'r Adroddiad Gwenyn Cymru o dan Fygythiad ar wefan Buglife.

Dawn Bowden AC, Pencampwr y Llysywen Ewropeaidd, yn rhyddhau llyswennod yng Nghastell Cyfarthfa. Ar y dde mae Tony Rees, Ymddiriedolaeth Afonydd De Ddwyrain Cymru; Dawn Bowden; Richard Garner Williams, S&TC Cymru; David Bunt, Grŵp Llyswennod Cynaliadwy.





Croesawu David fel Pencampwr yr Eog



Rydym yn falch o groesawu David Rees AC fel ein pencampwr newydd dros eog yr Atlantig. Gyda'r stoc yn 21 o 23 brif afon eogiaid Cymru 'mewn perygl' neu 'mewn perygl tebygol' o fethu â chyrraedd eu cyfyngiadau cadwraeth, ni fu erioed fwy o angen am lais yn y Senedd i warchod buddion y rhywogaeth eiconig hon. Mae poblogaethau'r eog mewn afonydd megis y Ddyfrdwy, yr Wy, yr Wysg a'r Teifi yn cael eu cydnabod fel rhai o arwyddocâd Ewropeaidd ac o ganlyniad maent yn derbyn gwarchodaeth arbennig o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Mae bygythiadau newid hinsawdd, llygredd amaethyddol, coedwigaeth masnachol, corlaniad ac echdynnu i gyd yn effeithio ar niferoedd yr eog ac eto mae cynnydd i fynd i'r afael â'r problemau hyn yn ddychrynllyd o araf. Ein hafonydd yw llecynnau meithrin naturiol yr eog a thra bod y pysgod yn wynebu heriau lu tra yn y môr, mae'n hanfodol ein bod yn eu gwarchod yn ystod cyfnod eu hieuenctid os ydym am weld y rhywogaeth hon yn parhau. Fel partneriaid arweiniol yn y fentr Pencampwr Rhywogaethau eog yr Atlantig, mae Cadwraeth Eog a Brithyll Cymru ac Afonydd Cymru'n edrych ymlaen at gydweithio â David i hysbysu AC, rheolyddwyr, diwydiant a'r cyhoedd am y newidiadau sydd eu hangen i sicrhau goroesiad yr eog yn nyfroedd Cymru.

Canolbwyntio ar rywogaeth: Gwaith Mark Isherwood i fynd i'r afael ag argyfwng gylfinirod Cymru

Mae Mark Isherwood AC wedi bod yn gweithredu i warchod y gylfinir mewn ymateb i'r pryder cynyddol am dynged y rhywogaeth hon. Mae'r gylfinir yn rhywogaeth Gymreig eiconig sydd wedi prinhau'n sylweddol dros y degawdau diwethaf. Yn adroddiad partneriaeth Sefyllfa Adar yng Nghymru 2018 disgrifiwyd y gylfinir fel '*blaenoriaeth cadwraeth adar pwysicaf y DU*'. Mae mwy o brinhad ym mhoblogaeth y gylfinir yng Nghymru nag yng ngweddill y DU, ac mae dros tri-chwarter poblogaeth Cymru wedi diflannu dros y 25 mlynedd diwethaf. Heb unrhyw awgrym y bydd y tueddiad hwn yn lefelu, mae cyrff amgylcheddol yn pryderu'n fawr am y rhywogaeth hon. Mae Gylfinir Cymru wedi dod ynghyd i fynd i'r afael â'r prinhad. Menter cydweithredol o 16 o gyrff sydd â diddordeb mewn gwarchod y rhywogaeth yw Gylfinir Cymru.

Mae Mark wedi bod yn ymgyrchu dros weithredu ar ran y gylfinir drwy gynyddu pwysigrwydd Gylfinir Cymru gyda Gweinidog Cymreig, yn ogystal â chynnal trafodaeth rhwng cynrychiolwyr a'r cyn-Weinidog dros yr Amgylchedd, Hannah Blythyn. Llwyddodd y digwyddiad i godi ymwybyddiaeth am dynged y gylfinir ymysg y sawl sy'n gwneud penderfyniadau ac amlygwyd sut mae eu gwarchodaeth ynghlwm wrth y Ddeddf Amgylchedd. Fel pencampwr rhywogaeth, mae Mark hefyd wedi treulio amser gyda RSPB Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a ffermwyr, er mwyn deall y ffactorau sydd wedi peri prinhad y gylfinir. Ymwelodd Mark ag Ysbyty Ifan lle bu'n trafod canlyniadau'r adroddiad Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru [SoNaRR] sy'n amlygu newid amaethyddol fel ffactor allweddol yng nghyflwr anfoddhaol ein hecosystemau. Tra'r oedd yn Ysbyty Ifan, gwelodd Mark drosto'i hun y mesurau cadwraeth a all helpu i adfer y nifer o ylfinirod yn cynnwys cau ffosydd ar yr ucheldir a chyflwyno trefnweithiau pori cymysg gyda gwartheg. Ers ei ymweliad, mae Mark wedi bod yn awyddus i drafod yn y Senedd sut all y cynllun nwyddau cyhoeddus arfaethedig alluogi ffermwyr i wneud mwy dros y rhywogaeth. Yn y gwanwyn mae Mark yn gobeithio cynnal ymweliad fferm i Weinidogion fel eu bod nhw hefyd yn gallu gweld y mesurau cadwraeth a all sicrhau buddiannau uniongyrchol i'r gylfinir. Hoffai'r rhwydwaith ac RSPB Cymru ddiolch i Mark am ei ymdrechion dros yr ychydig fisoedd diwethaf i gynyddu'r nifer o ylfinirod.



Teyrnged i Steffan Lewis, Pencampwr y Gardwenynen Fain

Gyda thristwch mawr y clywsom y newyddion am farwolaeth disymwth Steffan Lewis AC. Roedd yn unigolyn hyfryd ac yn AC gweithgar a oedd yn deall yr effaith sylweddol y byddai Brexit yn ei gael ar bolisi, yn enwedig ein hamgylchedd. Roedd Steffan yn weithgar gyda'r project 'Pencampwr Rhywogaeth' - yn wir, derbyniodd gyda chryn frwdfrydedd y rôl o Bencampwr Rhywogaeth dros y Gardwenynen Fain. Yn fuan wedyn, cyfarfu Sinead Lynch o Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn i drafod ei rôl, beth allai ei wneud i hyrwyddo'r gardwenynen, a beth arall ddylai gael ei wneud i gefnogi'n fwy eang rywogaethau o dan fygythiad. Cydymdeimlwn gyda'i deulu, ei gyfeillion a'i gyd-weithwyr yn ystod yr amser anodd hwn.

Beth yw prosiect Pencampwyr Rhywogaethau Cyswllt Amgylchedd Cymru?

Mae'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn gytundeb rhyngwladol i warchod ein bywyd gwyllt gyda tharged i atal colli bioamrywiaeth erbyn 2020. Mae dull Cymru o reoli adnoddau naturiol drwy'r dull ecosystem - fel y'i hymgorfforir yn Neddf yr Amgylchedd - yn gorfodi diogelu rhywogaethau rhag colli cynefinoedd, llygredd a datblygiadau niweidiol. Trefnir Hyrwyddwyr Rhywogaethau gan Cyswllt Amgylchedd Cymru a'n chwaer Ddolenni yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Gofynnir i ACau - ochr yn ochr ag ASau, Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon - i roi cymorth gwleidyddol i amddiffyn bywyd gwyllt sydd dan fygythiad. Drwy fod yn Bencampwr Rhywogaethau, gall Aelodau'r Cynulliad ddysgu oddi wrth aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru am y rhywogaethau, mynd ar ymweliadau safle i weld lle ceir hyd iddynt yn eu hetholaeth a dysgu am yr hyn sydd angen ei wneud i atal eu dirywiad. Aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru isod yw'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiect.